

Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol: dadansoddiad cymharol Papur Briffio

Ebrill 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **[cylchlythyr](https://cylchlythyr.senedd.cymru)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol: dadansoddiad cymharol

Papur Briffio

Ebrill 2025

Awdur:

Dr Katy Orford

Disgwylir i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) gael ei gyflwyno yr haf hwn. Rhagwelir y bydd yn cynnwys pwerau i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru – a fyddai'n dwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill i gyfrif ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r pwerau hyn yn cael eu cynnig i fynd i'r afael â'r 'bwllch llywodraethiant amgylcheddol' ar ôl ymadael â'r UE, sef yr hyn y mae rhanddeiliaid yn cyfeirio ato.

Cymru yw'r olaf o wledydd y DU i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol. Daeth Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (yr Office for Environmental Protection, neu'r OEP, sy'n cwmpasu Lloegr a Gogledd Iwerddon) a Safonau Amgylchedd yr Alban (Environmental Standards Scotland, neu ESS) yn gyrrff llywodraethiant amgylcheddol statudol yn 2021.

Mae gan Gymru, felly'r fantais o allu dysgu yn sgil sefydlu'r cyrrff hyn, wrth sefydlu ei chyrff ei hun.

Mae'r papur briffio hwn yn cymharu'r cynigion i Gymru â'r OEP a'r ESS, gan amlygu gwahaniaethau yn eu swyddogaethau ac archwilio eu seiliau cyfreithiol. Mae'n archwilio materion a godwyd yn ystod gwaith craffu deddfwriaethol yn Senedd y DU a Senedd yr Alban ar y Mesurau sy'n sefydlu'r OEP a'r ESS. At hynny, mae'n tynnu ar wersi a ddysgwyd gan fod y cyrrff hynny, bellach, wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd. Mae'n cloi gyda chwestiynau allweddol i'w hystyried ar gyfer sefydlu corff i Gymru.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Y 'bwllch llywodraethiant amgylcheddol' ar ôl gadael yr UE.....	1
Cyrff llywodraethiant amgylcheddol domestig y DU	2
Mesurau interim yng Nghymru.....	2
Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)	3
2. Cymhariaeth â chyrff llywodraethiant eraill y DU	5
Awdurdodau cyhoeddus o fewn y cwmpas	5
Swyddogaethau'r corff	6
Ffurff y corff a phenodiadau	12
Cyllid	13
Perthynas â chyrff eraill	14
Trefniadau trosiannol	15
3. Materion a gododd yn ystod gwaith craffu deddfwriaethol ar y Biliau sy'n cyflwyno'r OEP a'r ESS.....	19
4. Beth ellir ei ddysgu o'r OEP a'r ESS ers eu sefydlu?.....	22
5. Casgliadau a'r camau nesaf.....	25

1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon, yn y lle cyntaf, yn amlinellu'r cyddestun ynghylch yr angen am gorff llywodraethiant amgylcheddol. Mae'n trafod y 'bwlch llywodraethiant amgylcheddol' ar ôl gadael yr UE, cyrff llywodraethiant amgylcheddol eraill y DU, mesurau interim yng Nghymru, a Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) sydd, i bob golwg, ar y ffordd.

Y 'bwlch llywodraethiant amgylcheddol' ar ôl gadael yr UE

Pan adawodd y DU yr UE, fe adawodd **system llywodraethiant amgylcheddol yr UE**.

Yn y papur briffio hwn mae 'llywodraethiant amgylcheddol' yn cyfeirio at system atebolrwydd, lle mae gweithrediad a chydymffurfriad â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus yn cael ei fonitro, ei wella a (lle bo angen) ei orfodi gan gorff annibynnol neu 'gorff gwarchod'. Mae hyn at ddiben cyffredinol diogelu'r amgylchedd.

Yn yr UE, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro'r modd y mae Aelod-wladwriaethau yn gweithredu cyfreithiau amgylcheddol yr UE, ac yn ymlynu wrthynt. Gall dinasyddion a sefydliadau gwyno i'r Comisiwn os ydynt o'r farn bod cyfraith amgylcheddol wedi'i thorri. Os yw'r Comisiwn o'r farn bod achos i'w ateb, gall atgyfeirio achosion i Lys Cyfiawnder yr UE (y Llys Cyfiawnder). Gall hyn arwain at gamau gorfodi (gan gynnwys dirwyon) yn erbyn Aelod-wladwriaethau sy'n torri'r cyfreithiau hynny.

Er enghraifft, yn 2016, **dyfarnodd y Llys Cyfiawnder** bod y DU wedi methu â chyfyngu ar allyriadau o orsaf bŵer Aberddawan, ac wedi gorchymyn i Lywodraeth y DU dalu'r costau cyfreithiol cysylltiedig. Daeth y toriad i'r amlwg yn dilyn ymholiadau'r Comisiwn fel rhan o'i waith monitro gweithfeydd hylosgi mawr. Canfuwyd fod yr orsaf yn llosgi glo, a gaeodd yn 2020 yn allyrru symiau anghyfreithlon o ocsidau nitrogen rhwng 2008 a 2011. Fe wnaeth y Llys Cyfiawnder ddwyn Llywodraeth y DU gerbron y llys fel yr Aelod-wladwriaeth, ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol, am fod allyriadau llygryddion yn faes datganoledig.

Fe wnaeth y refferendwm ar adael yr UE **sbarduno pryder** ymhlith rhanddeiliaid amgylcheddol fod yna 'fwlch llywodraethiant amgylcheddol' yn y DU. **Bu galwadau** am drefniadau llywodraethiant amgylcheddol domestig newydd i ddwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif ar eu perfformiad amgylcheddol, y tu allan i'r UE.

Cyrff llywodraethiant amgylcheddol domestig y DU

Mae cyrff llywodraethiant amgylcheddol domestig statudol wedi'u sefydlu ar gyfer gwledydd eraill y DU:

- **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** (*Office for Environmental Protection – OEP*) ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Sefydlwyd yr OEP yn gyfreithiol gan **Ddeddf yr Amgylchedd 2021** (Deddf Amgylchedd y DU); a
- **Safonau Amgylchedd yr Alban** (*Environmental Standards Scotland – ESS*). Sefydlwyd ESS yn gyfreithiol gan **Ddeddf y DU yn Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021** (Deddf Parhad yr Alban).

Cyn cael eu pwerau statudol, sefydlwyd yr OEP a'r ESS fel cyrff interim/cysgodol.

Mae'r **OEP** a'r **ESS** fel ei gilydd wedi cyhoeddi strategaethau sy'n nodi manylion eu gweithrediad a'u cylch gwaith. Trafodir y rhain yn fanwl drwy gydol y papur briffio hwn.

Mesurau interim yng Nghymru

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru **ymrwymo yn y lle cyntaf** i ddeddfu i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethiant yn 2018. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, mae wedi sefydlu mesurau interim i bontio'r bwlch rhwng ymadael â'r UE a chreu corff newydd parhaol.

Cafodd **Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru (Asesydd Dros Dro)** – Dr Nerys Llewelyn Jones – ei **phenodi** ym mis Chwefror 2021. Roedd y swydd wedi'i bwriadu'n wreiddiol am gyfnod o ddwy flynedd, ond mae wedi'i hymestyn sawl gwaith ac mae'n dal i fod yn weithredol.

Rôl yr Asesydd Dros Dro yw ystyried gweithrediad cyfraith amgylcheddol, ac fe wnaeth Dr Llewelyn Jones **ei disgrifio fel a ganlyn**:

... looking at the environmental law that we have in Wales at the moment, how that achieves the objectives that it was set out to do, but also, maybe, whether or not those objectives are still the right ones ... I'm also able to look at issues where there are practical problems with the functioning of that environmental law.

Nid yw'r Asesydd Dros Dro yn meddu ar bwerau ymchwilio a gorfodi statudol i fynd i'r afael â chwynion am ddiffyg cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol. Mae **Llywodraeth Cymru yn cynghori dinasyddion** i fynd ar drywydd y dulliau presennol o wneud iawn ar lefel ddomestig (e.e. adolygiad barnwrol), er mwyn cyflwyno her mewn perthynas â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

Mae'r Asesydd Dros Dro wedi **cael cyflwyniadau** gan randdeiliaid a'r cyhoedd lle mae materion canfyddedig ynghylch gweithrediad cyfraith amgylcheddol. Ei rôl yw cynhyrchu adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar y materion hyn er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol. Hyd yma, **un adroddiad** a gynhyrchwyd, ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Mae sector yr amgylchedd wedi **codi pryderon** nad yw'r trefniadau dros dro yn mynd yn ddigon pell, ac maent wedi bod yn galw am Fil Cymru i sefydlu corff llywodraethiant cwbl weithredol, fel mater o flaenoriaeth. Mae'r mesurau dros dro wedi bod yn destun **gwaith craffu blynyddol** gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Mae rhanddeiliaid a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at Fil i sefydlu corff i Gymru **am nifer o flynyddoedd**; mae saith mlynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddeddfu. Yn 2023, **daeth y Pwyllgor CCEI i'r casgliad**, "os nad yw'r corff newydd yn gwbl weithredol cyn diwedd cyfnod Llywodraeth Cymru mewn grym, bydd hynny'n fethiant anfaddeuol ar ei rhan."

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Disgwylir i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Senedd **ym mis Mehefin 2025**.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar **Bapur Gwyn ar gyfer y Bil** rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2024. Roedd yn cynnwys y cynigion a ganlyn:

- Cyflwyno egwyddorion amgylcheddol troswaol i fod yn sail i bob penderfyniad polisi yn y dyfodol;
- sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cynnal cyfraith amgylcheddol;
- cyflwyno fframwaith i ddiogelu ac adfer natur, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth.

Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar y pwerau i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol – Rhan B o'r Papur Gwyn. Mae mwy o fanylion am y cynigion eraill yn y Papur Gwyn yn **Erthygl Ymchwil y Senedd** (Gorffennaf 2024).

Roedd cynigion y Papur Gwyn yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019 ar **egwyddorion amgylcheddol a llywodraethiant yng Nghymru ar ôl gadael yr UE**. Yn 2020, gwnaeth **Grŵp Tasg Rhanddeiliaid** a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru gynnal gwaith pellach i lunio'r cynigion.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi ei hymateb**. Roedd hwn yn nodi cynigion wedi'u haddasu yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid. Y cynigion hyn yw'r darlun mwyaf diweddar o'r llwybr y gall Llywodraeth Cymru ei ddilyn ac maent yn sail i'r papur briffio hwn.

2. Cymhariaeth â chyrrff llywodraethiant eraill y DU

Mae'r adran hon yn archwilio ffactorau wrth ddylunio corff llywodraethiant amgylcheddol Cymreig a deddfwriaeth gysylltiedig. Ar gyfer pob thema, mae'r dadansoddiad yn amlygu'r hyn sydd wedi'i gynnig yng Nghymru ac yn ei gymharu â'r OEP a'r ESS, a'u sylfeini deddfwriaethol – Deddf Amgylchedd y DU a Deddf Parhad yr Alban, yn y drefn honno. Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o wahaniaethau.

Awdurdodau cyhoeddus o fewn y cwmpas

Cynigion i Gymru

Cynigiodd y Papur Gwyn i ddechrau y byddai gan y corff llywodraethiant gylch gwaith dros Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru a restrir yn **Atodiad 2 yr ymgynghoriad**.

Roedd y rhestr hon yn cynnwys cyrrff yr oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod ganddynt bwerau/dyletswyddau sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Roedd yn cynnwys (ymysg eraill) Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff preifat sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, e.e. cwmnïau dŵr.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, **amlygodd Llywodraeth Cymru** rybudd gan randdeiliaid ynghylch rhestru cyrrff unigol yn y Bil. Cytunodd y byddai dull sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus perthnasol o fewn 'diffiniad cyffredinol' yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy addas ar gyfer y dyfodol.

Yr OEP a'r ESS

Mae Deddf Amgylchedd y DU a Deddf Parhad yr Alban yn defnyddio'r dull o ddiffinio awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas yn hytrach na'u rhestru. Mae'r naill a'r llall yn diffinio awdurdod cyhoeddus fel person sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus (gyda rhai eithriadau megis llys neu dribiwnlys, yr OEP a'r ESS eu hunain, a Senedd y DU a Senedd yr Alban).

Swyddogaethau'r corff

Cynigion i Gymru

Fel y cynigiwyd, byddai'r corff yn monitro effeithiolrwydd a gweithrediad cyfraith amgylcheddol. Byddai'n cynghori ac yn ymchwilio i awdurdodau cyhoeddus o dan ei gylch gwaith, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Byddai ganddo ystod o bwerau gorfodi i ddwyn yr awdurdodau cyhoeddus hynny i gyfrif am beidio â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

Monitro ac adrodd

Gwnaeth **y Papur Gwyn** gynnig pwerau arfaethedig i alluogi'r corff llywodraethiant i fonitro effeithiolrwydd a gweithrediad cyfraith amgylcheddol, yn ogystal â chydymffurfiaid â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus o fewn ei gylch gwaith.

At hynny, byddai'r corff llywodraethiant yn asesu cyflawniad targedau amgylcheddol statudol gan gynnwys **targedau bioamrywiaeth a ragwelir**, targedau yn ***Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** a thargedau yn ***Neddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024***. Yn ogystal â thargedau domestig, cynigiodd y Papur Gwyn y byddai'n adrodd ac yn cynghori ar dargedau amgylcheddol ehangach fel y maent yn berthnasol i Gymru, megis y rheini o fewn confensiynau rhyngwladol.

Byddai'r corff yn adrodd i Weinidogion Cymru ar ei waith yn flynyddol. Byddai'r adroddiad blynyddol yn cael ei osod yn y Senedd.

Rhoi cyngor

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig pwerau i'r corff llywodraethiant ddarparu cyngor arbenigol yn rhagweithiol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Byddai hyn yn cynnwys newidiadau i gyfraith amgylcheddol a gweithredu polisi ehangach, ar ôl ystyried cwynion a materion cydymffurfio systemig. Byddai'r corff yn gweithredu ar ei liwt ei hun, yn hytrach na chael ei gyfyngu i geisiadau am gyngor. Byddai cyngor a roddir i Weinidogion Cymru yn cael ei gyhoeddi gan y corff llywodraethiant.

Cynigiwyd **na fyddai'n** orfodol i'r corff llywodraethiant roi cyngor pan ofynnir amdano. Fodd bynnag, os nad yw'n darparu tystiolaeth, rhaid iddo esbonio pam na wnaeth hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried y rhinweddau o ran y corff yn gallu cyhoeddi hysbysiadau cynghori yn argymhell gwelliannau i brosesau neu ganllawiau. Diben hynny fyddai lleihau'r risg o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn y dyfodol ar ran awdurdod cyhoeddus.

Cwynion a sylwadau

Amlinellodd y Papur Gwyn sut y byddai'r corff Llywodraethiant yn ymdrin â chwynion allanol ar achosion honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus. At hynny, byddai'r corff yn cael cwynion am weithrediad a gweithrediad / effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Ni ellid cyflwyno cwynion mewn perthynas â phenderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau cyhoeddus (e.e. rhoi trwyddedau neu ganiatâd cynllunio) oni bai eu bod yn ymwneud â materion ehangach yn ymwneud â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Amlygodd Llywodraeth Cymru na fyddai disgwyl i'r corff weithredu ar bob cyflwyniad y mae'n ei dderbyn.

Roedd ymatebion **i'r Papur Gwyn** yn amlinellu pryderon ynghylch anallu'r corff i ymdrin â chwynion am benderfyniadau penodol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y dylai'r corff allu cofnodi'r mathau hyn o gwynion i fonitro a oeddent yn gyfystyr â phatrwm o ddiffyg cydymffurfio. Awgrymodd llawer o sefydliadau y dylid caniatáu i'r corff ymchwilio i benderfyniadau penodol ar sail eithriadol, e.e. y rheini sy'n cael effaith amgylcheddol sylweddol.

Ymchwilio

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y byddai gan y corff llywodraethiant y pŵer i ymchwilio i achosion honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus. Gallai'r ymchwiliadau hyn gael eu rhoi ar waith gan y corff ei hun, yn seiliedig ar ganfyddiadau o'i waith monitro ei hun, yn ogystal â chwynion a sylwadau'r cyhoedd.

Fel rhan o'r swyddogaeth ymchwilio, byddai'r corff yn cyhoeddi 'hysbysiadau gwybodaeth' (yn gofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus, gyda therfynau amser ar gyfer ymatebion) ac yn cymryd camau gorfodi yn erbyn awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn cydymffurfio â'r hysbysiadau hyn.

Gorfodi

Cynigiodd y Papur Gwyn amrywiaeth o bwerau gorfodi ar gyfer achosion pan fydd y corff llywodraethiant o'r farn bod awdurdodau cyhoeddus wedi methu

â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Byddai'r corff yn blaenoriaethu penderfyniadau a chynghor anffurfiol cyn troi at gamau gorfodi ffurfiol megis atgyfeirio i'r llys. Byddai opsiynau gorfodi yn cynnwys y canlynol:

- **Hysbysiadau cydymffurfio** fyddai'r prif ddull ffurfiol o ddatrys diffyg cydymffurfio. Byddai'r hysbysiad hwn yn manylu ar y camau a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad, yn amlinellu'r methiant penodol, ac yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus Cymru eu cymryd i unioni neu liniaru'r diffyg cydymffurfio, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer camau gweithredu.
- Byddai **atgyfeiriadau i'r llys** ar gael, ond dim ond fel dewis olaf. Pe bai Gweinidogion Cymru/awdurdodau cyhoeddus eraill yn apelio'n aflwyddiannus a/ neu fel arall yn dewis peidio â chymryd camau yn unol â hysbysiad cydymffurfio, byddai'r pŵer gan y corff llywodraethiant i atgyfeirio diffyg cydymffurfio i Uchel Lys Cymru a Lloegr. Gallai methu â chadw at y gorchymyn llys arwain at ddirmyg llys o dan bwerau presennol y llys, gan ddarparu mynediad at yr ystod arferol o rwymedïau sydd ar gael (a allai gynnwys cosbau ariannol).
- Byddai **adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil** ar gael mewn amgylchiadau eithriadol. Gallai'r corff llywodraethiant wneud cais am adolygiad barnwrol, neu wneud cais i ymuno ag achosion adolygiad barnwrol, heb fynd drwy'r broses orfodi uchod yn gyntaf. Er enghraifft, pan fo ymddygiad un o awdurdodau cyhoeddus Cymru yn fethiant difrifol i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, a bod angen atal/liniaru ar frys niwed difrifol i'r amgylchedd naturiol neu iechyd dynol.

Ni fyddai gan y corff y pŵer i roi dirwyon i awdurdodau cyhoeddus ei hun. Yn ôl y Papur Gwyn, byddai'n aneffeithiol, a dadleuodd y gallai dirwyon gylchredeg arian o fewn y sector cyhoeddus heb ddatrys y broblem. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai codi dirwyon yn cyd-fynd yn well â'r llysoedd.

Adroddiadau gwella

Byddai **adroddiadau gwella** yn cael eu cyhoeddi gan y corff llywodraethiant i Weinidogion Cymru a, lle bo'n berthnasol, awdurdodau cyhoeddus eraill, pan na all hysbysiad cydymffurfio ymdrin yn effeithiol â mater. Byddai'r adroddiadau'n cynnwys argymhellion a gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â materion cydymffurfio systemig, megis pan fydd awdurdodau cyhoeddus lluosog yn methu â chydymffurfio ag agweddau tebyg ar gyfraith amgylcheddol. At hynny, gellid defnyddio adroddiadau gwella i adrodd ar aneffeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Byddai'r adroddiad gwella yn cael ei osod yn y Senedd. Byddai dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymateb i'r adroddiadau hyn gyda **chynllun**

gwella yn amlinellu eu camau gweithredu, neu resymau dros wrthod unrhyw argymhellion.

Yr OEP a'r ESS

Mae gan yr OEP a'r ESS swyddogaethau tebyg i'r hyn a gynigiwyd ar gyfer y corff Cymreig. Amlygir y gwahaniaethau rhwng y cyrff a'r cynigion Cymreig isod ac fe'u crynhoir yn Nhabl 1.

Monitro ac adrodd

Mae gan yr OEP bwerau i fonitro cynnydd yn erbyn Cynllun Gwella Amgylcheddol Llywodraeth y DU a'r targedau amgylcheddol a osodwyd o dan Ddeddf Amgylchedd y DU. At hynny, mae ganddo ddyletswydd gyffredinol i fonitro gweithrediad cyfraith amgylcheddol.

Mae gan ESS bwerau i fonitro cydymffurfiaeth Gweinidogion yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus eraill â chyfraith amgylcheddol a hefyd effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol a sut y caiff ei gweithredu a'i chymhwyso. Mae ei swyddogaethau'n cynnwys adolygu gweithrediad rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n debycach i'r cynigion i Gymru, tra **nad oes gan** yr OEP yr awdurdodaeth i fonitro cyfraith ryngwladol.

Mae **Cynllun Strategol ESS 2022-25** yn amlygu'n benodol ei rôl o ran monitro a yw'r Alban yn 'cadw i'r funud' o ran safonau amgylcheddol yn yr UE (mae hyn yn ymwneud ag **ymrwymiad polisi Llywodraeth yr Alban** i barhau i alinio â safonau'r UE, lle bo hynny'n briodol).

Nid oes pwerau penodol yn Neddf Parhad yr Alban i'r ESS fonitro targedau statudol (yn wahanol i Ddeddf Amgylchedd y DU a'r cynigion i Gymru). Gallai hyn newid o'r flwyddyn nesaf wrth i **Fil yr Amgylchedd Naturiol (yr Alban)** anelu at gyflwyno targedau bioamrywiaeth gydag ESS fel y corff adolygu a fydd yn monitro cynnydd yn eu herbyn.

Rhoi cyngor

Mae gan yr OEP y pŵer i gynghori Gweinidogion ar unrhyw newid arfaethedig i gyfraith amgylcheddol, neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol. Yn wahanol i'r cynigion i Gymru, mae'n **rhaid** i'r OEP **roi** cyngor os yw Gweinidogion wedi gofyn amdano.

Er bod y cynigion i Gymru yn cynnwys cyngor i awdurdodau cyhoeddus eraill yn ogystal â Gweinidogion Cymru, mae swyddogaethau cynghori'r OEP wedi'u cyfyngu i Weinidogion.

Nid yw Deddf Parhad yr Alban yn rhoi'r un ddyletswydd gynghori i ESS. Tra bydd ESS, lle bo'n briodol, yn cyfrannu at ddatblygu polisi a chyfraith amgylcheddol, **mae'n pwysleisio** nad yw'n gynghorydd i Lywodraeth yr Alban.

Yn ymarferol, mae ESS yn cynhyrchu adroddiadau gydag argymhellion ar gyfer Llywodraeth yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus eraill, er enghraifft **adroddiad cwmpasu diweddar ar briddoedd**.

Cwynion a sylwadau

Gellir cyflwyno cwynion i'r OEP os yw person o'r farn bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Nid yw hyn yn mynd mor bell â chynigion i Gymru, sy'n dweud y gallai cwynion ddod i law am weithrediad ehangach cyfraith amgylcheddol, a'r broses o'i rhoi ar waith, yn ogystal â thoriadau honedig o gyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

Gellir cyflwyno sylwadau cyhoeddus i'r ESS ar effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, yn ogystal â chydymffurfiaeth gan awdurdodau cyhoeddus.

Ymchwilio

Yn yr un modd â chynigion ar gyfer Cymru, gall yr OEP a ESS ymchwilio i awdurdod cyhoeddus a allai fod wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Gellir rhoi hyn ar waith yn dilyn cwyn gan y cyhoedd, neu ar sail gwybodaeth gan y cyrff eu hunain. Mae'r gan y naill gorff a'r llall y pŵer i roi hysbysiadau gwybodaeth i'r awdurdod cyhoeddus sy'n destun ymchwiliad.

Gorfodi

Mae gan OEP y pŵer i gyhoeddi **hysbysiadau penderfyniad**, ac mae'r ESS yn cyhoeddi **hysbysiadau cydymffurfio** – mae'r rhain yn debyg i'r hysbysiadau cydymffurfio arfaethedig ar gyfer Cymru.

Gall yr OEP wneud cais i'r llys (yn Lloegr, yr Uchel Lys) am **adolygiad amgylcheddol** pan fo wedi cyhoeddi hysbysiad o benderfyniad ac yn parhau i ystyried bod methiant difrifol i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Yn achos Gogledd Iwerddon, byddai hyn yn **gais am adolygiad** (Uchel Lys Gogledd Iwerddon). Os

bydd y llys yn canfod bod yr awdurdod wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, rhaid iddo wneud datganiad i'r perwyl hwnnw. At hynny, gall y llys ganiatáu unrhyw rwymedi sydd ar gael, gan gynnwys codi dirwyon.

Gall ESS adrodd am awdurdod cyhoeddus i **Llys y Sesiwn** os yw'n methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio. Gall y llys wneud gorchymyn gorfodi fel y gwêl yn briodol, a/neu ymdrin â'r mater fel pe bai'n ddirmyg ar y llys.

Mae **adolygiad barnwrol** (ac ymyrraeth mewn adolygiad barnwrol presennol) ar gael i'r OEP a'r ESS os oes angen gweithredu ar frys i atal neu liniaru niwed difrifol.

Mae ESS wedi'i gyfyngu rhag defnyddio ei bwerau gorfodi mewn perthynas â phenderfyniadau rheoleiddio unigol, sydd wedi bod destun dadl. Mae Deddf Parhad yr Alban yn cyfyngu ar gylch gwaith ESS mewn achosion pan fo methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn deillio o unrhyw benderfyniad gan awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio, mewn perthynas ag unigolyn neu achos penodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, penderfyniad ar gais am drwydded neu benderfyniad ar orfodi rheoleiddiol mewn achos penodol. Mae ESS yn defnyddio sylwadau cyhoeddus ar achosion unigol fel hyn i asesu a allent fod **rhan o fater mwy systematig**.

Mae hyn yn wahanol i'r OEP gan nad yw Deddf Amgylchedd y DU yn eithrio'r penderfyniadau unigol hyn o'i gylch gwaith. Mae wedi **cyhoeddi canllawiau** er mwyn pwysleisio bod yn rhaid i unrhyw broses gwyno berthnasol yr awdurdod cyhoeddus perthnasol gael ei dihysbyddu'n llawn cyn y gall ystyried y gŵyn.

Yn yr un modd â'r cynigion i Gymru, gall ESS gyhoeddi **adroddiadau gwella** lle mae'n ystyried bod gweithredoedd awdurdod cyhoeddus yn cynrychioli 'methiant systemig', argymhell mesurau y dylai Gweinidogion yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus eraill eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol a/neu wella ei heffeithiolrwydd. Mae'n ofynnol, wedyn, ar Lywodraeth yr Alban i gynhyrchu **cynllun gwella** a'i gyflwyno i Senedd yr Alban i'w gymeradwyo. Mae'r gofyniad hwn am gymeradwyaeth seneddol yn mynd ymhellach na'r cynigion i Gymru neu ddarpariaethau Deddf Amgylchedd y DU.

Ffur y corff a phenodiadau

Cynigion i Gymru

Model gweithredu

Mae cynllun y corff a phenodiad ei aelodau yn fater allweddol wrth ystyried ei annibyniaeth.

Mae **Llywodraeth Cymru yn cynnig** y byddai gan y corff fwrdd o arbenigwyr, a all eiriol dros yr amgylchedd a darparu cyfeiriad strategol. Mae'n dweud y dylai'r bwrdd gael ei gefnogi gan swyddogaeth weithredol gref i gyflawni'r cyfeiriad, gyda'r Prif Weithredwr yn eistedd fel aelod o'r bwrdd.

Gwnaeth y **Papur Gwyn** ddatgan bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu proses penodiadau cyhoeddus cadarn i "gydbwyso annibyniaeth, natur ddiduedd ac uniondeb y corff gyda gwybodaeth arbenigol a chydweddu polisi". Dywedodd y byddai Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â phwyllgor priodol y Senedd wrth benodi'r Cadeirydd a'r 'comisiynwyr' (aelodau bwrdd).

Maint y corff

Awgrymodd y Papur Gwyn y byddai'r corff llywodraethiant yn cael ei arwain gan fwrdd o 8-9 aelod. Byddai'n cael ei ddarparu gyda deuddeg o staff cymorth.

Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n datblygu hyn ymhellach gyda golwg ar gydbwyso cyfeiriad a darpariaeth.

Yr OEP a'r ESS

Model gweithredu

Mae'r OEP yn '**gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol**'. Mae ganddo Gadeirydd (sy'n aelod anweithredol) a gall fod â hyd at bum aelod anweithredol arall o'r bwrdd. Mae Prif Weithredwr, ac o leiaf un, ond dim mwy na thri, aelod gweithredol arall.

Penodir y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn gweithredu ar y cyd ag Adran Gogledd Iwerddon ar ôl penodi'r Cadeirydd cyntaf). Mae'r Cadeirydd yn destun gwrandawriad cyn penodi yn Senedd y DU.

Mae ESS wedi'i sefydlu fel a '**swydd anweinidogol**'

Mae ESS yn cynnwys aelodau, gyda Chadeirydd, a benodir gan Weinidogion yn

amodol ar gymeradwyaeth gan Senedd yr Alban.

Mae aelodau ESS wedi ffurfio bwrdd i redeg y sefydliad ac i gyflawni ei swyddogaethau. Mae gan ESS staff parhaol, sy'n weision sifil, dan arweiniad Prif Weithredwr.

Mae Deddf Amgylchedd y DU a Deddf Parhad yr Alban fel ei gilydd yn nodi annibyniaeth gyfreithiol yr OEP ac ESS oddi wrth y llywodraeth.

Maint y corff

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gan yr OEP chwe aelod anweithredol o'r bwrdd, tri aelod o'r bwrdd gweithredol a dau Gyfarwyddwr. Roedd 86 o staff gweithredol yn eu swyddi.

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gan ESS saith aelod bwrdd, 21 o staff parhaol a dau aelod o staff cyfnod penodol.

Cyllid

Cynigion i Gymru

Mae dyraniad y gyllideb i'r corff llywodraethiant yn bwysig wrth ystyried ei annibyniaeth.

Roedd y Papur Gwyn yn ystyried rhinweddau cyllid yn uniongyrchol drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru, neu Gronfa Gyfunol Cymru. Daeth i'r casgliad mai cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru oedd yr opsiwn a ffefrir, gan ddarparu mwy o hyblygrwydd cyllidebol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwrthdaro buddiannau posibl o ran un o Weinidogion Cymru yn pennu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer corff craffu. Awgrymodd fesurau sydd eu hangen i sicrhau annibyniaeth, e.e. y Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid yn hytrach na'r amgylchedd i wneud penderfyniadau ar ariannu'r corff llywodraethiant.

Cydnabu Llywodraeth Cymru fod ymatebwyr y Papur Gwyn yn galw am gyllideb ddigonol wedi'i chlustnodi ar gyfer y corff.

Yr OEP a'r ESS

Ariennir yr OEP gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn Lloegr a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon.

Ariennir yr ESS drwy gyllideb yr Alban fel rhan o'r portffolio sero ac ynni net.

Fe wnaeth adroddiad blynyddol a'r cyfrifon diweddaraf ar gyfer yr OEP a'r ESS adrodd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024:

- **OEP:** Roedd **£10.8m** ar gael gan DEFRA a DAERA gyda'i gilydd.
- Gwnaeth **ESS** dderbyn dyraniad cyllideb o **£2.9m**, ond cytunodd i ddychwelyd £150,000 ganol y flwyddyn mewn ymateb i alwad am arbedion diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Gwnaeth **Cyllideb yr Alban 2025-26** ddyrannu **£3.8m** i ESS. Nid yw cyllideb 2025-26 ar gyfer yr OEP wedi'i chyhoeddi ar adeg ysgrifennu hwn.

Perthynas â chyrff eraill

Cynigion i Gymru

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig bod yn rhaid i'r corff llywodraethiant gynnwys yn ei strategaeth sut y bydd yn cydweithredu'n effeithiol â sefydliadau eraill ac yn osgoi dyblygu. Tynnwyd sylw at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â'r OEP ac ESS.

At hynny, roedd y Papur Gwyn yn cydnabod na fydd y corff llywodraethiant yn rheoleiddiwr rheng flaen ei hun, ac na fydd yn dyblygu gwaith rheoleiddwyr presennol megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er mwyn osgoi unrhyw ymestyniad o ran bwriad, a gorgyffwrdd posibl â chyrff eraill, **mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd:** "yn ceisio datblygu 'prif amcan', i'w nodi ar wyneb y bil, a fydd yn darparu rhagor o gyfarwyddyd clir".

Yr OEP a'r ESS

Mae Deddf Amgylchedd y DU a Deddf Parhad yr Alban fel ei gilydd yn darparu bod yn rhaid i strategaethau OEP/ESS, yn y drefn honno, nodi'r modd y mae'r cyrff yn bwriadu osgoi unrhyw orgyffwrdd a chydweithio â chyrff perthnasol. Mae'r OEP yn rhoi pwyslais ar osgoi gorgyffwrdd â Phwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd (Pwyllgor y DU).

Mae strategaethau OEP a ESS fel ei gilydd yn datgan bod memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'u sefydlu gyda chyrff cyhoeddus eraill ar sut y byddant yn cydweithredu.

Trefniadau trosiannol

Yn 2023, gwnaeth **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Isadeiledd y Senedd argymhell** sefydlu corff cysgodol yn gynnar i Gymru, cyn i'r ddeddfwriaeth berthnasol ddod i rym. Gallai hyn ganiatáu i lawer o'r gwaith sylfaenol gael ei osod cyn lansio'r corff Llywodraethiant statudol. Nid yw corff cysgodol wedi'i sefydlu.

Sefydlwyd yr OEP a'r ESS fel cyrff interim/cysgodol anstatudol cyn i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei phasio. Roedd hyn yn caniatáu recriwtio a llety staff, datblygu eu strategaethau a chasglu cwynion gan y cyhoedd. Ffurfiwyd y cyrff yn gyflym yn gyfreithiol, wedi i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei phasio. Er enghraifft, cafodd yr OEP **ei lansio** fel corff interim ym mis Gorffennaf 2021. Yn dilyn hynny, cafodd **ei ffurfio yn gyfreithiol** ar 17 Tachwedd 2021 yn dilyn pasio Deddf Amgylchedd y DU gan Senedd y DU ar 9 Tachwedd 2021.

Yn ôl Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS mae gan Gymru fan cychwyn gwahanol i'r gwledydd eraill. Mae'n dadlau bod gan Gymru fesurau interim (Asesydd Dros Dro) ar waith, ond mae'n cydnabod nad yw hyn yn gorff cysgodol.

Tabl 1: Gwahaniaethau rhwng y cynigion i Gymru, OEP ac ESS.

	Cynigion i Gymru	Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP)	Safonau Amgylchedd yr Alban (ESS)
Swyddogaethau statudol	Monitro Ymchwilio Cael cwynion Gorfodi Cyngor	Monitro Ymchwilio Cael cwynion Gorfodi Cyngor	Monitro Ymchwilio Cael cwynion Gorfodi
Monitro	Monitro effeithiolrwydd a gweithrediad cyfraith amgylcheddol (gan gynnwys cynnydd yn erbyn targedau), yn ogystal â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus. Rhwymedigaethau domestig a rhyngwladol.	Yn monitro cynnydd y Cynllun Gwella Amgylcheddol a'r targedau amgylcheddol a osodwyd o dan Ddeddf Amgylchedd y DU. At hynny, mae ganddo ddyletswydd gyffredinol i fonitro gweithrediad cyfraith amgylcheddol. Domestig yn unig.	Yn monitro effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol a'r modd mae'n cael ei gweithredu a'i chymhwyso, yn ogystal â chydymffurfio awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol. Rhwymedigaethau domestig a rhyngwladol. Nid oes monitro statudol o dargedau ar hyn o bryd.
Cyngor	Cyngor i Weinidogion ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Byddai dim gofyniad i'r corff ddarparu cyngor pe gofynnir iddo gan Weinidogion.	Cyngor i Weinidogion yn unig. Mae'n rhaid i'r OEP roi cyngor os yw Gweinidogion wedi gofyn amdano.	Nid oes gan ESS ddyletswydd gynghori gyfatebol mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, caiff wneud argymhellion mewn perthynas â'i swyddogaethau.

Cwynion a sylwadau	Gellid cyflwyno sylwadau ar achosion honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus, a hefyd gweithrediad a gweithrediad cyfraith amgylcheddol.	Gellid cyflwyno sylwadau ar achosion honedig o dorri cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.	Gellid cyflwyno sylwadau ar achosion honedig o dorri cyfraith amgylcheddol, neu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.
Adroddiadau gwella	Byddai'r corff yn cyhoeddi adroddiadau gwella i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Byddai dyletswydd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i ymateb gyda chynllun gwella.	Nid oes gan Ddeddf Amgylchedd y DU ddarpariaethau tebyg ar adroddiadau a chynlluniau gwella. Fodd bynnag, gall yr OEP gyhoeddi adroddiadau mewn ymateb i ymchwiliadau y mae'n rhaid i'r Llywodraeth ymateb iddynt.	Cyhoeddir adroddiadau gwella gan ESS i Weinidogion yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus. Rhaid i Weinidogion yr Alban ymateb gyda chynllun gwella, a gyflwynir i Senedd yr Alban i'w gymeradwyo.
Gorfodi	Hysbysiadau cydymffurfio. Atgyfeiriad i'r llys. Adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil. Ni fyddai cylch gwaith y corff yn cynnwys penderfyniadau ar achosion penodol a wneir gan awdurdodau cyhoeddus.	Hysbysiadau penderfynu. Atgyfeiriad i'r llys. Adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil. Nid yw Deddf Amgylchedd y DU yn eithrio penderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau cyhoeddus ar achosion unigol o gylch gwaith yr OEP.	Hysbysiadau cydymffurfio. Atgyfeiriad i'r llys. Adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil. Mae Deddf Parhad yr Alban yn eithrio penderfyniadau unigol awdurdodau cyhoeddus o gylch gwaith ESS.

Penodi Cadeirydd	Penodir gan Weinidogion Cymru, yn dilyn ymgynghori â'r Senedd.	Penodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn gweithredu ar y cyd ag Adran Gogledd Iwerddon ar ôl penodi'r Cadeirydd cyntaf). Gwrandawriad cyn penodi yn Senedd y DU.	Cynigit gan Weinidogion yr Alban, cymeradwyir gan Senedd yr Alban.
Maint y corff	8-9 aelod bwrdd, 12 o staff cymorth (arfaethedig).	Chwe aelod anweithredol o'r bwrdd a thri aelod gweithredol o'r bwrdd. Dau gyfarwyddwr, 86 o staff gweithredol (ar 31 Mawrth 2024).	Saith aelod bwrdd, 21 o staff parhaol a dau aelod o staff cyfnod penodol (ar 31 Mawrth 2024).
Cyllideb	I'w phennu.	Yn y flwyddyn ariannol 2023-2024 , DEFRA a DAERA gyda'i gilydd wedi sicrhau bod £10.8m ar gael.	Ym mlwyddyn ariannol 2023-24 derbyniodd ESS ddyraniad cyllideb o £2.9m. Cytunodd ESS i ddychwelyd £150,000 ganol y flwyddyn mewn ymateb i alwad am arbedion diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Ffynonellau cynnwys: **Papur Gwyn ac ymateb Llywodraeth Cymru, Deddf Amgylchedd y DU, Polisi Strategaeth a Gorfodi'r OEP 2024** ac **Adroddiad Blynyddol yr OEP 2023/24, Deddf Parhad yr Alban, Cynllun Strategol ESS 2022/25** ac **Adroddiad Blynyddol ESS 2023/24**.

3. Materion a gododd yn ystod gwaith craffu deddfwriaethol ar y Biliau sy'n cyflwyno'r OEP a'r ESS

Gan ragweld taith Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) drwy'r Senedd, mae'r adran hon yn archwilio'r mathau o faterion a drafodwyd wrth graffu ar Fil Amgylchedd y DU a Bil Parhad yr Alban, a sefydlodd yr OEP a'r ESS, yn y drefn honno.

OEP

Yn ystod taith Bil Amgylchedd y DU (a ddaeth yn Ddeddf Amgylchedd y DU) ystyriwyd y materion a ganlyn fel rhan o'r gwaith craffu:

- **I ba raddau y mae'r OEP yn annibynnol ar Lywodraeth y DU:** cafodd pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau i'r OEP ar ei bolisi a'i swyddogaethau gorfodi (wedi'u cynnwys fel un o **gwelliannau'r Llywodraeth**) eu trafod yng nghyd-destun annibyniaeth y corff. Ystyriwyd y mecanweithiau ar gyfer penodi, talu ac ailbenodi aelodau'r OEP yn nhermau annibyniaeth.
- **Y rhwymedïau sydd ar gael ar gyfer iawn effeithiol: roedd gwaith craffu ar y Bil** yn cynnwys ymdrechion i gryfhau'r atebion sydd ar gael i'r OEP ar gyfer iawn effeithiol am dorri cyfraith amgylcheddol. **Roedd hyn yn cynnwys** dadl ynghylch a ddylai'r Bil egluro bod gan y tribiwnlys y pŵer i godi dirwyon mewn achosion o beidio â chydymffurfio â dyfarniad. At hynny, a ddylid rhoi'r pŵer i'r tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus wneud iawn am niwed amgylcheddol.
- **Yr amodau ynghylch gorfodi barnwrol:** cafodd **gwelliannau'r Llywodraeth** eu gwneud i'r Bil i gyfyngu pwerau'r OEP i ymyrryd mewn achosion adolygiad barnwrol i achosion 'difrifol'; ac i gyfyngu pwerau'r OEP i roi achosion o adolygiad barnwrol ar waith i achosion 'brys'.
- **Rôl Senedd y DU mewn penodiadau: ystyriodd yr Aelodau** rôl Senedd y DU o ran cynnal gwaith craffu ar benodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill yr OEP.
- **Cyllideb yr OEP:** nod **gwelliannau'r gwrthbleidiau** oedd caniatáu i'r OEP ofyn

am gynnydd yn y gyllideb gan y Llywodraeth, a'i gwneud yn ofynnol i'r OEP gael cyllideb ddangosol pum mlynedd.

- **Cydgysylltu â chyrff eraill:** cyflwynwyd **gwelliant gan y Llywodraeth** er mwyn sicrhau na fyddai'r OEP yn dyblygu gwaith Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, a'i gwneud yn ofynnol i'r ddau gorff baratoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Roedd gwelliant arall cynnwys dyletswydd newydd i'r OEP nodi yn ei strategaeth y modd y mae'n bwriadu rhyngweithio â chyrff llywodraethiant amgylcheddol datganoledig.

ESS

Yn ystod taith y Bil (a ddaeth yn Ddeddf Parhad yr Alban) ystyriwyd y materion a ganlyn wrth gynnal y gwaith craffu.

- **Cywerthedd y cynigion i system lywodraethiant amgylcheddol yr UE yr oedd y DU wedi ymadael â hi:** **nododd Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir (ECCLR) Senedd yr Alban** bod y Bil yn canolbwyntio ar elfennau llywodraethiant y Comisiwn Ewropeaidd. Amlygodd fylchau yn y gallu i fynd ar drywydd materion ar lefel achos unigol. Amlygodd fylchau o ran ymchwilio i achosion lle mae'r amgylchedd yn elfen ond nid yn graidd i'r mater, ac mewn perthynas â llywodraethiant hinsawdd. Nododd y Pwyllgor y posibilrwydd na fyddai achosion yn cael eu datrys yn llawn.
- **Camau gorfodi ar achosion unigol:** **cododd rhanddeiliaid** y mater na fyddai'r ESS yn gallu cymryd camau gorfodi ar benderfyniadau unigol gan awdurdodau cyhoeddus. Gwnaeth Llywodraeth yr Alban egluro ei sefyllfa, gan nodi fel a ganlyn:

... the limitation is only on the use of the enforcement powers with respect to individual regulatory decisions of public authorities, such as decisions on an individual permit or permissions... It is the Scottish Government's intention that it should be possible for regulatory decisions to be taken, and deemed to be final, without the new body having to take a view on every occasion.
- **Rôl Seneddol wrth ystyried adroddiadau gwella:** croesawodd y Pwyllgor ECCLR allu Senedd yr Alban i wrthod cynllun gwella tra hefyd yn nodi gallu a mynediad pwyllgorau seneddol at arbenigedd wrth ystyried yr adroddiadau hyn.
- **I ba raddau y mae gan ddinasyddion fynediad at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol:** ystyriodd Senedd yr Alban a oedd y darpariaethau yn gydnaws â rhwymedigaethau o dan y **Confensiwn Aarhus** (Confensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) ar hawliau cyhoeddus ar faterion amgylcheddol, y mae'r DU yn barti iddo). Yn benodol, y rhwymedigaeth

i sicrhau bod dinasyddion yn cael mynediad at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol.

- **Perthynas ESS â chyrff eraill:** roedd Pwyllgor yr ECCLR o'r farn y dylid cynnwys cysylltiadau â chyrff perthnasol eraill yn y strategaeth a'u cynnwys yn Atodlen 2 i'r Bil.
- **I ba raddau y mae'n annibynnol oddi wrth Lywodraeth yr Alban:** archwiliwyd graddau annibyniaeth yr ESS fel swydd anweinidogol oddi wrth Lywodraeth yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys y broses benodi; mesurau diogelu o amgylch aelodaeth y bwrdd; swyddogaethau ESS; a'r adnoddau i gyflawni ei swydd yn annibynnol.
- **Monitro datblygiadau mewn cyfraith ryngwladol:** archwiliodd yr aelodau rôl ESS o ran goruchwyllo rhwymedigaethau rhyngwladol y mae'r DU wedi'u llofnodi, megis **Confensiwn Ramsar** a **Chonfensiwn Bern**.

Ceir rhagor o fanylion a diwygiadau i'r Bil ar y materion hyn mewn **briff gan Ganolfan Wybodaeth Senedd yr Alban**.

4. Beth ellir ei ddysgu o'r OEP a'r ESS ers eu sefydlu?

Mae'r adran hon yn ystyried gweithrediad yr OEP a'r ESS, sydd wedi bod yn gweithredu ers 2021, a'r hyn y gellir ei ddysgu ar ôl eu sefydlu.

OEP

Pwysleisiodd **adroddiad etifeddiaeth** Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin ar gyfer 2024 (mis Mai 2024), er gwaethaf y pryderon a godwyd yn ystod taith Bil Amgylchedd y DU, mae'r OEP yn dangos ei fod yn annibynnol oddi wrth Lywodraeth y DU. Amlygodd fod hyn yn amlwg trwy rai tensiynau a nodwyd rhwng DEFRA a'r OEP, er enghraifft, o ran darparu data o DEFRA i'r OEP.

Cynhaliodd yr OEP **ymgyngoriad ac adborth cyhoeddus** ar ei strategaeth ym mis Tachwedd 2024. Defnyddiwyd hwn i ddiweddarau ei strategaeth a pholisi gorfodi. Er bod rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth a'r polisi gorfodi yn dilyn yr adborth hwn, **teimlodd yr OEP** fod y strategaeth a'r polisi gorfodi wedi sefyll prawf amser, yn fras. Roedd y canlynol ymhlith rhai materion a nodwyd o'r ymgynghoriad:

- Gwell tryloywder yn y modd y mae'r Cynllun yn blaenoriaethu materion;
- gwell ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd;
- esboniad gwell o'r berthynas â chyrff eraill gan gynnwys ESS ac IEPAW;
- esboniad gwell o'r hyn y gall achwynwyr ei ddisgwyl o'r broses (gan gynnwys amserlenni);
- rôl fwy gweithredol wrth graffu ar ddyluniad nodau a thargedau, yn ogystal â chynnydd tuag atynt;
- mwy o bwyslais yn y strategaeth ar rôl yr OEP i amlygu bylchau mewn tystiolaeth a data i gefnogi gwelliant amgylcheddol;
- mwy o hyblygrwydd o ran maint a dyfnder y gwaith craffu ar gyfraith amgylcheddol, fel y gellir cynnal mwy o adolygiadau;
- pryder y gallai'r gofyniad i achwynydd fod wedi dihsbyddu proses gwyno awdurdod cyhoeddus (sy'n ofynnol gan Ddeddf Amgylchedd y DU) yn rhwystri i gael mynediad at wasanaeth cwynion yr OEP; a hefyd

- pryder nad yw'r OEP, hyd yn hyn, wedi defnyddio'r holl offer gorfodi a ddarparwyd yn Neddf Amgylchedd y DU.

Roedd **adolygiad annibynnol** o dirwedd reoleiddiol DEFRA (Ebrill 2025) yn cynnwys argymhelliad ar gyfer yr OEP:

The Office for Environmental Protection (OEP) plays an important role in providing independent scrutiny to Government action on the environment. However ... the OEP must ensure its focus is on outcomes not just process. Their recent report on the previous Government's progress towards delivering the Environment Act targets helpfully supports the need to go further and faster. Consideration should be given as to **how the OEP can increase focus on the outcomes that are desired and support regulators to take more risk** to achieve those goals within the Government's wider objectives.

Mae enghreifftiau o'r gwaith y mae'r OEP wedi'i gynnal i'w gweld yn ei **adroddiadau blynyddol**.

ESS

Mae Deddf Parhad yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth yr Alban ymgynghori ac adrodd ynghylch a yw'r Ddeddf wedi sicrhau llywodraethiant amgylcheddol effeithiol ar ôl ymadael â'r UE. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei **adroddiad cyntaf ar gynnydd**. Yn dilyn hynny, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban osod **datganiad** ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant amgylcheddol (gofyniad arall o Ddeddf Parhad yr Alban).

Amlygodd yr adroddiad cynnydd y modd y mae ESS wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn achosion gwahanol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr hyblygrwydd sydd wedi'i ymgorffori yn y darpariaethau, ac mae'r anogaeth i ESS ac awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu i ddatrys materion yn anffurfiol, yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r adroddiad yn amlygu un achos hyd yma - ymchwiliad i ansawdd aer - lle mae'r darpariaethau ar gyfer adroddiad gwella wedi dilyn pob cam.

Cymeradwyodd Senedd yr Alban gynllun gwella Llywodraeth yr Alban mewn ymateb i adroddiad gwella a gyflwynwyd gan ESS.

Yn ôl yr adroddiad cynnydd, mae awdurdodau cyhoeddus yn ymateb yn gadarnhaol ac yn cydweithredu, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, wrth rannu gwybodaeth ar gyfer ymchwiliadau, a cheisio datrys pryderon.

Roedd eithrio penderfyniadau unigol awdurdodau cyhoeddus o gylch gwaith ESS

yn fater allweddol a drafodwyd yn ystod taith Deddf Parhad yr Alban, ac mae'n parhau i fod yn destun dadl. Fodd bynnag, **mae Llywodraeth yr Alban yn mynnu** na ddylai fod yn rôl yr ESS i weithredu fel pwynt apêl ar gyfer penderfyniadau cynllunio a chaniatâd unigol. Mae'n cydnabod y gall eithrio achosion unigol ychwanegu at y system; lle mae'n rhaid i unigolyn sydd â phryderon y mae am eu cyflwyno i'r ESS ddangos yn gyntaf ei fod wedi rhoi cynnig ar bob llwybr arall. Fodd bynnag, mae'n amlygu bod rheolyddion, yn gyffredinol, yn ddarostyngedig i derfynau amser statudol ar gyfer ystyried unrhyw sylwadau. Mae'n eiriol dros gyfathrebu da rhwng ESS a rheoleiddwyr.

Amlygodd Llywodraeth yr Alban, yn ei adroddiad yn 2023, sawl sylw gan gynnwys ffocws parhaus Senedd yr Alban yn hollbwysig i effeithiolrwydd y trefniadau.

Mewn ymateb i adroddiad cynnydd 2023, **amlygodd ESS** nad yw rôl yr UE o gasglu a dadansoddi data canolog, fel ffurf o fonitro, wedi'i disodli. At hynny, tynnodd sylw at ddiffyg arolygiaeth gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, gan nodi y gallai'r llys hwnnw gymryd golwg fwy cyfannol ar fater, gan ystyried tystiolaeth gymhleth ac adolygu cyfreithlondeb cwyn.

Ym mis Ebrill 2025, cafwyd dadl yn Senedd yr Alban ynghylch i ba raddau y mae'r Alban yn cydymffurfio â chonfensiwn Aarhus. Dywedodd Cynullydd Pwyllgor Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth Senedd yr Alban nad oes gan ESS y pwerau i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â chonfensiwn Aarhus, gan nodi'r ffaith na all ESS ymchwilio i achosion unigol.

5. Casgliadau a'r camau nesaf

Mae'r adran hon yn crynhoi cwestiynau craffu allweddol i'w hystyried pan fydd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn mynd drwy'r Senedd ac os/pryd y caiff y corff newydd ei sefydlu.

Bydd dysgu oddi wrth gyrff llywodraethiant eraill y DU yn ddefnyddiol wrth sefydlu corff llywodraethiant newydd i Gymru. Mae gan Gymru, wrth gwrs, ei hystiriaethau ei hun, gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol a ddarperir gan **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** a **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**, yn ogystal â swyddogaethau cyrff cyhoeddus eraill Cymru gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae rhai cwestiynau allweddol isod a godwyd o'r materion a archwiliwyd drwy gydol y papur briffio hwn:

- A ddylid sefydlu corff cysgodol, cyn i'r corff llywodraethiant Cymreig dderbyn ei bwerau cyfreithiol, i hwyluso'r cyfnod pontio?
- Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau annibyniaeth y corff oddi wrth y llywodraeth, gan gynnwys o ran trefniadau ariannu, penodiadau a rôl y Senedd?
- A yw swyddogaethau'r corff yn disodli'n briodol yr hyn a oedd ar gael o dan system llywodraethiant amgylcheddol yr UE?
- A ddylai'r corff fod yn gyfrifol am fonitro cynnydd tuag at rwymedigaethau rhyngwladol, yn ogystal â thargedau a chyfreithiau domestig?
- A fyddai'r pwerau gorfodi sydd ar gael yn arwain at iawn effeithiol am achosion o dorri cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus?
- A oes gan ddinasyddion fynediad priodol at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol?
- A yw'r awdurdodau cyhoeddus, sydd wedi'u cynnwys o fewn cylch gwaith y corff, yn briodol?
- A ddylai penderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau cyhoeddus (e.e. rhoi trwyddedau neu ganiatâd cynllunio) gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y corff?
- A oes darpariaeth ddigonol i sicrhau bod y corff yn gweithio'n gydweithredol ac

yn effeithiol â chyrff perthnasol eraill ac yn osgoi dyblygu swyddogaethau (gan gynnwys Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff llywodraethiant eraill yn y DU)?

- A fydd gan y corff ddigon o adnoddau (cyllideb a staff) i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol?
- A ddylai fod amserlen ar gyfer sefydlu'r corff yn y ddeddfwriaeth?

Gyda disgwyl i Fil Cymru gael ei gyflwyno yr haf hwn, ac etholiad y Senedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2026, mae'n annhebygol y bydd y corff statudol Cymreig yn cael ei sefydlu yn ystod tymor y Llywodraeth hon.